Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl391

**Amseru:** Unigol

**Teitl:** Cyflwyniad Pwyllgor Dethol

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Llywodraethu

**Crynodeb Gweithredol:**
Sefydlodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu (CHTh), sydd â dyletswydd statudol a mandad etholiadol i ddal yr heddlu'n gyfrifol ar ran y cyhoedd. Bydd CHTh yn ceisio cyflwyno llinyn ychwanegol i'w drefniadau llywodraethu a chraffu, h.y. sut mae'n dal y Prif Gwnstabl i gyfrif.

Ochr yn ochr â'i Fwrdd Plismona a'i Fwrdd Perfformiad Strategol, mae CHTh wedi sefydlu Pwyllgor Dethol. Mae'r ymagwedd hon yn galluogi rhanddeiliaid allweddol ac aelodau o'r cyhoedd i chwarae rhan bwysig yng ngweithgarwch craffu CHTh; o eistedd ar y Pwyllgor Dethol, i gymryd rhan mewn gweithgarwch craffu ac ymgysylltu sy'n gysylltiedig â'r maes sy'n cael ei adolygu.
Mae CHTh yn bwriadu cynnal tri adolygiad Pwyllgor Dethol y flwyddyn, a bydd meysydd ffocws yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Heddlu a Throseddu 2025-29.
Bydd canlyniadau pob adolygiad Pwyllgor Dethol yn cael eu cyhoeddi ac efallai bydd angen ymateb gan y PG neu asiantaethau partner eraill. Gall y canfyddiadau hefyd hysbysu penderfyniadau buddsoddi CHTh mewn perthynas â chyflenwi gwasanaethau.
Mae adolygiadau'r Pwyllgor Dethol yn galluogi CHTh i arfer ei rôl mewn modd tryloyw drwy:
- Sicrhau craffu cadarn a dal y PG i gyfrif;
- Sicrhau bod lleisiau dioddefwyr a goroeswyr yn cael eu clywed;
- Cynnwys y cyhoedd mewn atebolrwydd lleol;
- Gweithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol a diogelwch cymunedol i sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol ehangach yn effeithlon ac effeithiol; a
- Chyhoeddi gwybodaeth i alluogi'r cyhoedd i asesu perfformiad y gwasanaeth heddlu a'i bartneriaid.

**Argymhelliad:**
Bod y Pwyllgor Dethol yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â strwythur Bwrdd Perfformiad Strategol a Bwrdd Plismona CHTh, fel lefel graffu ychwanegol.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**
Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.
Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 28/01/2025**